

**Cofnodion Cyfarfod o Gyngor Tref Porthmadog a gynhaliwyd
ar Nos Fawrth, 12fed o Dachwedd 2019, yn Ystafell Gaslyn, Y Ganolfan, Porthmadog.**

Presennol: Cyngorwyr: Gwilym Jones (Cadeirydd), Simon Brooks, Aled Griffith, Selwyn Griffiths, Carol Hayes, Jason Humphreys, Ian Jones, Dafydd Lake, Llewelyn Rhys, Bethan O Rees Jones, Gareth Williams, Richard Williams, Glenda Burke (Clerc).

Hefyd yn bresennol : Llŷr B. Jones, Pennaeth Cynorthwyol Economi a Chymuned, Cyngor Gwynedd.

Ymddiheuriadau: Cyngorwyr : Melfyn Edwards, Alwyn Gruffydd, Nia Jeffreys.

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd gan estyn croeso arbennig i Llŷr Jones gan ddiolch iddo am ei barodrwydd i ddod i drafod Traeth y Greigddu yn sgil y cynllun meysydd parcio 10%.

Diolchodd Llŷr am y croeso a'i fod yn falch o'r cyfle i ddod i drafod y mater yma ymhellach. Mae'r cynllun meysydd parcio 10% wedi cychwyn ar rai meysydd parcio yn y dref a'r ardal. Eglurodd nad oedd y traeth yn cael ei ystyried fel maes parcio. Mae'r tal a godir am fynd ar y traeth yn ffi mynediad. Nid yw'r safle yn disgyn o dan y strwythur parcio i gynnig 10%.

Ar hyn o bryd £5 yw'r ffi. Ar hyn o bryd ni ellir derbyn taliadau cerdyn ond mae'r cyngor yn edrych i ddatrys hyn cyn gynted â phosib. Mae £5 yn swm hwylus i'w gasglu heb beiriant cerdyn ac mae hyn yn angenrheidiol ar hyn o bryd.

Cyrhaeddodd y Cyng. Jason Humphreys.

Eglurodd Llŷr fod angen i'r Cyngor wneud arbedion sylweddol gyda'r Gwasanaethu Morwrol a Pharciau Gwledig yn cael ei reoli ar gyllideb gyfyngedig yn barod. Gallai arbedion pellach achosi risg i'r cyhoedd. Mae cynlluniau yn cael eu hystyried i geisio codi incwm e.e. ffi parcio yn Ninas Dinlle ac yn Llanberis. Maent hefyd am godi'r ffi lansio o £10 i £15. Os na fydd hyn yn codi digon o incwm ychwanegol byddent yn ystyried codi ffi mynediad Traeth y Greigddu . Roedd Llŷr yn nodi y gellir ail edrych ar y sefyllfa meysydd parcio 10% ond na fydd hynny am flwyddyn neu ddwy. Byddai angen i'r Cyngor Tref ddatgan pa welliannau neu weithgareddau yn yr ardal byddai'r incwm yma yn ei ariannu.

Agorwyd y llawr am sylwadau /cwestiynau.

Nododd y Cyng. Gwilym Jones y byddai medru derbyn taliadau efo cerdyn yn hwyluso pethau ond ni allai ddeall pam nad yw hyn yn bosib yn barod. Atebodd Llŷr nad yw'n deall yn iawn beth yw'r broblem ond nad yw'r signal i wasanaethu peiriant talu yn ddigon dibynadwy yna.

Eglurodd y Cyng. Simon Brooks gefndir penderfyniad y Cyngor Tref i ymuno yn y cynllun meysydd parcio 10% sef i helpu Cyngor Gwynedd trwy ysgwyddo cyfrifoldebau ariannol am wasanaethau heb orfod pasio'r gost ymlaen i'r cyhoedd drwy drethi. Mae cyfrifoldeb ar y Cyngor Tref i gael cyllideb gytbwys a cheisio bod yn gyfrifol. Roedd yn teimlo yn gryf am fater Traeth y Greigddu gan y byddai cael 10% o'r ffioedd yna yn gwneud gwahaniaeth o gymaint â £10,000 y flwyddyn . Gofynnodd am gadarnhad nad mater cyfreithiol yw hyn ond yn hytrach Penderfyniad cabinet, h.y. ydi'r penderfyniad yn benderfyniad polisi gan y cabinet.

Cadarnhaodd Llŷr na'r penderfyniad oedd mai ffi mynediad ydyw a dim tal parcio. Codir y ffi am fynediad ar dir y Cyngor. Nid yw'r ffi mynediad yma yn gyson efo ffioedd parcio gan fod ffi pario yn amrywio o faes parcio i faes parcio ac am amser penodol.

Nododd y Cyng. Jason Humphreys fod Cyngor Gwynedd angen delio efo mater talu efo cerdyn ar frys. Mater egwyddorol sydd yn y fantol meddai gan fod Cyngor Tref Porthmadog a Criccieth wedi cyd weithio yn 1974 i geisio prynu'r traeth ond fod yr eiddo wedi mynd i Bwllheli o dan y trefniadau newydd bryd hynny. Mae hyn yn fater o egwyddor yn ogystal ag ariannol.

Teimlai'r Cyng. Richard Williams y gallai'r cyngor fod wedi cyfleu'r achos yma lot gwell ac roedd yn dal i weld mai maes parcio ydyw. Wrth gau un mynediad mae'r costau rhedeg yn llai. Dim ond Traeth y Greigddu sydd yn codi arian am fynd ar y traeth.

Cydnabu hyn gan Llŷr gan nodi fod yr arian sydd yn cael ei gasglu yn y Greigddu yn ariannu lot o wasanaethau'r Adran Forwrol a Pharciau Gwledig.

Nododd y Cyng. Selwyn Griffiths fod problemau signal ger y traeth gan fod y maes carafannau lleol wedi bod yn cwyno am y diffyg wifi. Rhai yn dweud na'r toiledau sydd ar fai ac eraill yn dweud na phroblem BT ydyw. Roedd y Cyng. Griffiths yn teimlo yn gryf y dylai elfen o incwm y traeth ddod i'r dref.

Ni welai'r Cyng. Carol Hayes beth oedd y broblem efo codi'r ffi o £5 i £5.50 a byddai'n eu hannog ail ystyried.

Cyrhaeddodd y Cyng. Llywelyn Rhys.

Nododd Llŷr na fyddai'n bosib ail ystyried at y tymor nesaf ond y byddai'n bosib ail ystyried yn y dyfodol. Roedd yn derbyn beirniadaeth y Cyng. Humphreys o ran y mater o sortio peiriannau talu gan gydnabod nad oes digon o sylw wedi ei roi i'r mater. Roedd yn addo mynd ar ôl hyn.

Cyrhaeddodd y Cyng. Bethan O Rees Jones.

I orffen y trafod holodd y Cyng. Brooks pe bai traeth y greigddu yn cael ei nodi'n gyfreithiol fel maes marcio y gallai dod i mewn i'r cynllun meysydd parcio 10%. Atebodd Llŷr fod y cynllun meysydd parcio wedi cychwyn fel peilot ac mai cytundeb ar ddisgresiwn ydyw. Roedd y cynllun yn fodd o geisio adnabod adnoddau yn lleol er mwyn hwyluso gwelliannau a chynnal gwasanaethau yn lleol.

Diolchodd y Cadeirydd i Llŷr am ei amser.

Gan fod y cyfarfod yn rhedeg yn hwyr nododd y Cadeirydd nad oedd ganddo ddim i'w adrodd mis yma.

130. Cadarnhau cywirdeb cofnodion cyfarfod rheolaidd a gynhaliwyd ar y 8fed o Hydref 2019. Penderfynwyd : gyda'r cywirdeb fod y Cyng. Dafydd Lake yn bresennol derbyniwyd y cofnodion fel y rhai cywir a llofnodwyd hwy gan y Cadeirydd yn unol â gofynion y gyfraith. Cynnig : Cyng. Selwyn Griffiths. Eilio : Cyng. Richard Williams.

131. Cyfle i'r Cynghorwyr ddatgan diddordeb.

Cyng. Ian Jones – Gohebiaeth rhif 2

Cyng. Dafydd Lake – mater gerbron – Ysgol Eifion Wyn

Cyng. Selwyn Griffiths - Gohebiaeth rhif 16

Cyng. Simon Brooks – mater gerbron – Pwyllgor yr Harbwr

Materion i'w dwyn gerbron

132. Cynghorwyr Carol Hayes ac Alwyn Gruffydd – Adroddiad o Bwyllgor Ardal Un Llais. Derbyniwyd adroddiad gan y Cyng. Hayes yn adrodd am ofynion newydd fydd yn wynebu cynghorau tref a chymuned. Roedd 47 o awgrymiadau ac roedd Llywodraeth Cymru wedi cytuno ar 3 ohonynt.

1) Bydd yn orfodol i gynghorau tref a chymuned i greu a chyflwyno adroddiad blynyddol i'r cyhoedd.

2) Grymoedd Cymhwysedd. Bydd raid i bob Clerc gael cymwysterau CILCA neu gyffelyb.

3) Bydd hyfforddiant yn orfodol i bob cynghorydd - cyllid a chod ymddygiad.

Penderfynwyd: gan ddiolch i'r Cyng. Hayes, derbyn gyda phryder am y gwaith ychwanegol yn ôl cynnig y Cyng. Selwyn Griffiths, eiliwyd gan y Cyng. Richard Williams.

133. Cyng. Llewelyn Rhys – adroddiad o Bwyllgor yr Harbwr 9.10.19.

Adroddodd y Cyng. Rhys am y drafodaeth a fu am y gofid am y diffyg mynediad i Risiau'r Môr. Roedd wedi bod lawr at y safle cyn y cyfarfod ac wedi gweld fod yr arwydd rhwystro yn parhau i fod i fyny. Daeth y drafodaeth yn ddadl efo cynrychiolydd y Clwb Hwyllo. Roedd yn dadlau fod ganddynt hawl i rwystro ac eto yn gwrth ddweud ei hun drwy dderbyn nad oes ganddynt yr hawl. Er ceisio cyfamodi nid oedd dim datrysiad. Nododd y Cyng. Rhys fod yna 'public rights of way'

cyfreithiol yna ac nid oes ganddynt yr hawl i osod giât ac arwyddion rhwystr. Roedd y Cyng. Selwyn Griffiths wedi mynychu'r cyfarfod a themlai fod yr ateb yn un hawdd. Mae'r arwydd presennol yn ymosodol. Gellir newid yr arwydd i ddweud na giât diogelwch ydi hwn.

Gan fod y mater yma yn mynd ymlaen ers peth amser cynigiodd y Cyng. Carol Hayes y dylid trosglwyddo'r mater i ddwylo cyfreithiwr. Nid oedd eilydd.

Cynigiodd y Cyng. Bethan O Rees Jones y dylid gofyn i'r Cyngor Sir gymryd camau cyfreithiol gyntaf. Cyfeiriodd at y ffaith fod yr Harbwr Feistr wedi cydnabod hawl y cyhoedd i gael mynediad . Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Dafydd Lake. Roedd pawb yn gytûn.

Penderfynwyd : Ysgrifennu yn ôl y cynnig.

134. Cyng. Ian Jones/Cyng. Jason Humphreys- cynnig gweithredu i fynnu diogelwch safle'r Hen Felin. Nododd y Cyng. Ian Jones ei siom am gyflwr truenus y safle yma. Cynigiodd y dylid ysgrifennu at Adran Gynllunio Cyngor Gwynedd i ofyn iddynt fynd ar ôl perchnogion y safle a mynnu eu bod yn gwella'r safle o dan 'section 215, Town and Planning Act'. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Jason Humphreys nododd ei fod am weld datrysiaid tymor hi i'r safle yma. Mae hyn yn rhygnu ymlaen ers mis Awst pan dderbyniodd y Cyng. Humphreys neges gan riant oedd yn bryderus fod pobl ifanc yn medru mynd i mewn yna ac yn ôl rhai roedd un wedi disgyn tu fewn ond heb frifo. Dylai Cyngor Gwynedd wybod pwy yw'r perchennog er mwyn eu gorfodi i warchod y safle.

Penderfynwyd : ysgrifennu yn ôl y cynnig.

135. Clybiau Ieuentid.

Adroddwyd nad oedd unrhyw ymateb nac ymholiad wedi ei dderbyn yn dilyn yr hysbysebion diweddar ar wefan y Cyngor Tref ac yn Yr Wylan.

Roedd y Cyng. Simon Brooks yn angerddol fod yn rhaid symud ymlaen i geisio datrysiaid i wireddu addewid a wnaethpwyd i gynnal clybiau ieuentid yn y dref. Roedd y Cyng. Brooks yn cynnig y dylid ysgrifennu at Urdd Gobaith Cymru i ofyn a fyddent yn medru rhedeg clybiau ieuentid yn y dref gan ofyn beth fyddai eu telerau ayb. Maent yn gwneud hyn yn barod mewn ardaloedd eraill e.e.Bryncrug. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Richard Williams.

Cwestiynodd y Cyng. Aled Griffith yr angen am glybiau ieuentid gan fod yna glybiau fel Clwb Ffermwyr Ifanc Dyffryn Madog a HICYP yn yr ardal yn barod ac oni ddylai'r arian fynd i rheini. Nododd y Cyng. Jason Humphreys fod arian i Glwb Ffermwyr Ifanc wedi ei gwtogi eisoes gan Gyngor Gwynedd a bod clybiau eraill yn rhai crefyddol.

Penderfynwyd : trwy bleidlais cytunwyd i ysgrifennu yn ôl y cynnig.

136. Cynrychiolydd ar Bwyllgor y Ganolfan.

Nododd y Cyng. Jason Humphreys ei bryder fod y Cyngor Tref yn ethol cynrychiolwyr ar bwyllgor rheoli'r Ganolfan pan nad ydynt yn cydymffurfio drwy gofrestru aelodau ar y Gofrestr Elusennol.

Penderfynwyd : gan nad oedd gwirfoddolwr, gadael y mater ar y bwrdd hyd nes y llenwir y sedd wag olaf ar y Cyngor Tref.

137. Cynrychiolydd Llywodraethwyr Ysgol Eifion Wyn.

Nid oedd eilydd i gynnig y Cyng. Carol Hayes i geisio cyfethol aelod o'r cyhoedd. Nododd y Cyng. Gareth Williams na ellir gorfodi cynghorydd i fod yn Lywodraethwr.

Penderfynwyd : gadael y mater hyd nes y bydd y sedd wag olaf wedi ei llenwi yn ôl cynnig y Cyng. Selwyn Griffiths, eiliwyd gan y Cyng. Llywelyn Rhys. Roedd pawb yn gytûn.

138. Cyng. Richard Williams – cynnig ysgrifennu at Liz Saville Roberts, Dafydd Elis Thomas a Dylan Williams i'w hannog i weithredu i gau'r cloerddwll sydd yn cael ei gam ddefnyddio gan berchnogion tai haf.

Cyfeiriodd y Cyng. Williams am ddatganiad a wnaethpwyd gan Siân Gwenllian AC Arfon yn

ddiweddar yn cynnig ffordd o gau'r cloerwll sydd yn caniatáu perchnogion tai haf rhag cofrestru ail dai fel busnes er mwyn osgoi talu trethi. Nodai fod gan Lywodraeth Cymru'r pŵer i addasu Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 i ddatrys hyn unwaith ac am byth. Eiliwyd ei gynnig i ysgrifennu at Siân Gwenllian i ddiolch iddi am godi'r mater unwaith eto ac at Dafydd Elis-Thomas a Dilwyn Williams gan ddanfon copi er gwybodaeth i Liz Saville Roberts gan y Cyng. Ian Jones.

Penderfynwyd : ysgrifennu yn ôl y cynnig.

139. Cyng. Aled Griffith – cynnig ysgrifennu i ail edrych ar batrwm cludiant cyhoeddus sy'n cyrraedd/ gadael Porthmadog.

Adroddodd y Cyng. Griffith ei fod wedi sylweddoli fod amryw o drigolion yn ei chael yn anodd i gyrraedd y siopau a gwasanaethau ar Stad Penamser .Nid yw'n bosib ar y bws o gyfeiriad Tremadog na Phenrhyn. Nododd y Cyng.Jason Humphreys fod ymdrech i greu hwb bysiau wedi ei awgrymu yn y gorffennol. Cynigiodd y Cyng. Griffith ysgrifennu at Adran Cludiant Cyhoeddus Cyngor Gwynedd i ofyn iddynt ystyried newid/ addasu llwybr y T2. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Richard Williams gyda phawb yn gytûn.

Penderfynwyd : ysgrifennu yn ôl y cynnig.

140. Materion i'w dwyn gerbron y Cadeirydd unai er gwybodaeth neu i'w rhoi ar y Rhaglen ar gyfer y cyfarfod nesaf. (Dyddiad cau Rhaglen mis Rhagfyr 2019 – 3ydd o Ragfyr 2019).

- Meysydd parcio - yn dilyn cyfarfod efo Llŷr B Jones.
- Cyng. Carol Hayes - cynnig i ysgrifennu at Adran Trafnidiaeth Gyhoeddus Cyngor Gwynedd i ofyn iddynt ystyried bysiau hwyrach ar y T2 o Fangor i'r ardal yma.
- Cyng. Simon Brooks. - cynnig fod y Cyngor Tref yn nodi eu safiad cadarn ar geisiadau cynllunio sydd efo cymal 106 gan nodi eu bod yn gwrthwynebu unrhyw geisiadau i ddiddymu'r cymal yma. Y Clerc i gael hawl i ymateb ar ran y Cyngor Tref ar unrhyw geisiadau sydd am ddiddymu'r cymal 106 sydd efo dyddiad cau cyn cyfarfod nesaf y Cyngor Tref.

141. Gohebiaeth : Rhestr Aros am Ateb.

Penderfynwyd : Derbyn y wybodaeth a pharhau i bwysu am ateb fel bo angen.

Gohebiaeth :

142. CG, Adran Priffyrdd – ffordd Penamser (ymateb i lythyr rhaglen Hydref cof. 116).

Penderfynwyd : Derbyn y wybodaeth.

143. BT- ymgynghori ar eu rhaglen i ddileu rhai ffonau talu cyhoeddus.

Penderfynwyd : Ysgrifennu yn ôl cynnig y Cyng. Llywelyn Rhys , eiliwyd gan y Cyng. Gareth Williams i wrthwynebu cael gwared â'r blwch ffôn yn Nhremadog. Byddai ei gollu yn tynnu is adeiledd yr ardal i lawr ac y gellid gwneud defnydd ohono yn y dyfodol fel hwb technoleg.

144. Bob Griffiths, Warden Cefn Gwlad,CG - Nyrseri (ymateb i lythyr rhaglen Hydref cof.114).

Penderfynwyd : Derbyn y wybodaeth.

145. Glyn Roberts – gwybodaeth am gynrychiolydd ar Gorff Llywodraethwyr Ysgol y Gorlan.

Penderfynwyd : ail drafod yr ohebiaeth mis nesaf gan fod y Cyng. Alwyn Gruffydd yn absennol ac mae'n cynrychioli Cyngor Gwynedd ar Lywodraethwyr Ysgol Y Gorlan yn ôl cynnig y Cyng. Selwyn Griffiths , eiliwyd gan y Cyng. Richard Williams. Derbyniwyd gwelliant y Cyng. Jason Humphreys i roi hyn ar agenda'r cyfarfod blynyddol.

146. Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol – Drafft Adroddiad Blynyddol 2020/2021. Copi llawn ar y bwrdd, adran berthnasol i Gynghorau Tref ynghlwm.

Penderfynwyd : Derbyn y wybodaeth.

147. Un Llais Cymru – Adroddiad Cyflwr y Genedl (copi llawn ar y bwrdd).

Penderfynwyd : Derbyn y wybodaeth.

148. CG, Gwasanaethau Cyfreithiol - gorchymyn cau llwybr troed y nyrseri - er gwybodaeth.

Penderfynwyd : Derbyn y wybodaeth.

149. Gwyn Evans, Swyddog Gorfodaeth CG – arwydd cwmni Darlows (ymateb i lythyr rhaglen Hydref , cof. 118).

Penderfynwyd : ysgrifennu yn ôl gan ofyn iddynt weithredu gan fod yr arwydd yn parhau i fod yna. Cynigwyd gan y Cyng. Simon Brooks , eiliwyd gan y Cyng. Ian Jones.

150. Un Llais Cymru – Bwletin Newyddion.

Penderfynwyd : Derbyn y wybodaeth.

151. Mel ab Owain, Un Llais Cymru - Cadarnhad fod lwfans cynghorwyr yn drethadwy.

Penderfynwyd : derbyn a nodi'r wybodaeth gyda siom yn ôl cynnig y Cyng. Jason Humphreys , eiliwyd gan y Cymg. Selwyn Griffiths.

152. Llywodraeth Cymru – Sicrhau Bioamrywiaeth Gwell.

Penderfynwyd : Derbyn y wybodaeth.

153. Francis Sherrington, CG – llwybr beicio cefn Tŷ Moelwyn, diweddariad.

Penderfynwyd : Derbyn y wybodaeth ond cadw llygaid ar y safle i sicrhau fod yr arwyddion yn cael eu gosod.

154. Un Llais Cymru – Ymgyrch #EverydayAgeism Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru (copi ar y bwrdd).

Penderfynwyd : Derbyn y wybodaeth.

155. Amanda Murray, CG – Meysydd Chwarae yn eich Tref/Cymuned.

Penderfynwyd : gadael y mater ar y bwrdd a pheidio ymateb yn ôl cynnig y Cyng. Selwyn Griffiths, eiliwyd gan y Cyng. Llywelyn Rhys.

156. Rhian Williams , CG – lloches bws Tesco (ymateb i lythyr rhaglen Hydref cof.108).

Penderfynwyd : ysgrifennu drachefn yn ôl cynnig y Cyng. Carol Hayes , eiliwyd gan y Cyng. Richard Williams i nodi y byddai cyfrifoldeb am y ffordd/ lloches bws yma wedi ei drosglwyddo i Gyngor Gwynedd yn dilyn 'de-trunking' o'r ffordd.

157. Selwyn Griffiths, Gwarchod Ardal Port - system TCC (ymateb i lythyr rhaglen Hydref).

Penderfynwyd : trafod y mater ym mis Rhagfyr os bydd ateb wedi ei dderbyn gan Gyngor Gwynedd.

158. Materion Ariannol :

Biliau i'w talu :

British Legion - plethdorch Sul y Cofio (ad dalu'r Clerc)	=	£20.00
Xerox Finance - llogi llungopiwr 1.11.19 - 31.1.20	=	£126.00
Gardencraft Tremadog - planhigion gaeaf i'r stryd fawr	=	£120.00
Cyngor Gwynedd – Archwiliad mewnol 2018/2019	=	£276.00
Glenda Burke - Hanner costau ffôn/ we (£32.25)inc (£11.49) 24 stamp ail ddsbarth (£14.64) clips papur bach a mawr (£15.29)	=	£73.67
Glenda Burke – cyflog Clerc mis Hydref 2019	=	£599.00
Cyllid a Thollau EM – treth incwm/ yswiriant gwlad Hydref 2019	=	£155.00

Penderfynwyd : talu'r biliau yn ôl cynnig y Cyng. Selwyn Griffiths, eiliwyd gan y Cyng. Simon Brooks.

Bil i'w drafod/ ystyried:

Cyngor Gwynedd-cyfraniad at doiledau Borth y Gest a Porthmadog 19/20 = £8,000.00

Penderfynwyd : trafod y mater mis nesaf yn ôl cynnig y Cyng. Jason Humphreys , eiliwyd gan y Cyng. Llywelyn Rhys. Copi o'r bil i'w gynnwys i bawb.

Derbyniadau:

Llog Banc – Hydref 2019 = £5.57

Biliau wedi eu talu

Scottish Power – costau trydan 28.6.19 – 25.9.19 = £25.97

Penderfynwyd : nodi'r derbyniadau cymeradwyo'r bil sydd wedi ei dalu.

Costau Nadolig

Dyfyndbris R J Electrics i brofi , gosod a thynnu goleuadau Nadolig

Penderfynwyd : derbyn yr amcan bris yn ôl cynnig y Cyng. Richard Williams , eiliwyd gan y Cyng. Selwyn Griffiths.

159. Ceisiadau Cynllunio :

i) **C19/1025/44/LL** - Cais llawn i newid defnydd cyn gapel i eiddo preswyl.

Capel Zion, Stryd Wesla, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9DS.

Penderfynwyd : dim gwrthwynebiad yn ôl cynnig y Cyng. Carol Hayes , eiliwyd gan y Cyng. Llywelyn Rhys. Dymuna'r Cyng. Hayes nodi enw cywir yr adeilad sef Capel Seion.